Ysgol Gynradd Gymunedol Tal-y-bont
Pennaeth - Mr Hefin Jones
prif@talybont.ceredigion.sch.uk

Annwyl Rieni,

Er mwyn rhoi amser i ysgolion asesu eu capasiti staffio a rhoi'r mesurau angenrheidiol ar waith i gefnogi dychweliad dysgwyr, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu rhoi dau ddiwrnod cynllunio i bob ysgol ar ddechrau'r tymor nesaf (5ed a 6ed Ionawr 2022). Ni fydd ysgolion yn darparu unrhyw ddysgu ar-lein/cyfunol yn ystod y dyddiau hyn. Bydd disgyblion ysgolion Ceredigion yn cael eu croesawu nol i'r ysgol ar ddydd **Gwener 7fed Ionawr 2022**. Bydd taliadau/talebau yn parhau i'r teuluoedd hynny sydd â hawl i ddarpariaeth prydau ysgol am ddim i'w plant.

Yn dibynnu ar gyd-destun Covid, mae'n bosibl y gwelwn newidiadau yn y ffordd y mae ysgolion yn gweithredu pan fyddant yn dychwelyd ym mis Ionawr. Byddwn yn parhau i asesu'r sefyllfa mewn cydweithrediad â'r Awdurdod Lleol, Llywodraeth Cymru a Iechyd Cyhoeddus Cymru. Byddwn yn rhannu unrhyw ddiweddariadau perthnasol gyda chi fel y bo'n briodol.

Mae hon yn sefyllfa sy'n esblygu'n gyflym ac rydym yn eich annog i gymryd gofal ychwanegol i gadw eich hunain a'r rhai o'ch cwmpas mor ddiogel â phosibl.

Hoffwn ddiolch am eich amynedd ac am eich cefnogaeth barhaus i'r ysgol.

Diolch i chi hefyd am y geiriau caredig dros y cyfnod anodd yma. Rwy'n prowd iawn o waith y staff i sicrhau bod eich plant yn ddiogel a hapus yn yr ysgol ac rwy'n teimlo fod y plant yn ymateb yn gadarnhaol iawn i'r gofal yma. Ar ran y staff hoffwn ddiolch o galon i chi am y cardiau a'r anrhegion, rydym yn eu gwerthfawrogi'n fawr iawn. Dymuniadau gorau i chi a'ch teulu dros y Nadolig a blwyddyn newydd dda.

+++++++++++

*In order to give schools time to assess their staffing capacity and put in place the necessary measures to support learner return, the Welsh Government has decided to give each school two planning days at the beginning of next term (5th and 6th January 2022). Schools will not provide any online / blended learning during these days. Pupils in Ceredigion schools will be welcomed back to school on **Friday 7th January 2022**. Payments / vouchers will continue for those families who are entitled to free school meals provision for their children.*

*Depending on the Covid context, we may see changes in the way schools operate when they return in January. We will continue to assess the situation in conjunction*

Ysgol Gynradd Gymunedol Tal-y-bont
Tal-y-bont
Aberystwyth
Ceredigion SY24 5HE
01970 832276
www.talybont.ceredigion.sch.uk
@YsgolTalybont

*with the Local Authority, Welsh Government and Public Health Wales. We will share any relevant updates with you as appropriate.*

*This is a rapidly evolving situation and we urge you to take extra care to keep yourself and those around you as safe as possible.*

*I would like to thank you for your patience and for your continued support to the school.*

*Thank you also for the kind words over this difficult time. I take great pride in the work of the staff in ensuring that your children are happy and safe in school and I feel that the children respond very positively to this care. On behalf of the staff I would like to thank you very much for the cards and the gifts, which we greatly appreciate. Best wishes to you and your family at Christmas and a happy new year to you all.*

Hefin Jones
Pennaeth